# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2002

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

*Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen y Cynnig heb Dyddiad Trafod a ganlyn a gyflwynwyd ar 6ed Tachwedd 2002.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 24
**Derbyniwyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor**
*NNDM1212* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn penderfynu:

1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2002-7, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 78 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn (ynghyd â swyddogaethau'r Cynulliad, mewn perthynas â'r ail fater a nodir yn yr Atodlen, o dan Adran 22 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990), a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Sue Essex AC (Cadeirydd)
Karen Sinclair AC
Eleanor Burnham AC
Janet Davies AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 29 Tachwedd 2002, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**

Apêl cynllunio gan Bovis Homes Ltd am ganiatâd cynllunio bras ar gyfer datblygu'r safle cyfan at ddibenion preswyl a chais llawn ar gyfer cam cyntaf datblygiad a fydd yn cynnwys 121 o anheddau ynghyd â chynigion tirlunio, man agored a gwaith atodol arall ar dir yn Woodside, Brynbuga, Sir Fynwy.

Apêl cynllunio ac apêl caniatâd adeilad rhestredig gan Hutchinson 3G UK Ltd ar gyfer antenâu arfaethedig ar Empire House, 54-57 Mount Stuart Square, Caerdydd.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 26
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.01pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 1 a 9 yn ôl

**2.40pm**
**Cwestiwn Brys**
**Gofynnodd Glyn Davies AC** a fyddai'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig yn gwneud datganiad ar ganfyddiadau'r "Ymateb i adroddiadau'r ymholiadau i Glwy'r Traed a'r Genau gan Lywodraeth ei Mawrhydi a Llywodraeth Cynulliad Cymru"?

**2.58pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.02pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Nick Bourne** ar ddefnyddio datganiadau Llywodraeth. Cyfeiriodd y **Llywydd** at argymhellion yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad ynghylch datganiadau.

**Lorraine Barrett** ar ddefnyddio Neuadd y Cynulliad. Dywedodd y **Llywydd** fod prinder lle yn Adeilad y Cynulliad a bod angen i Aelodau gymryd i ystyriaeth berfformiadau neu arddangosfeydd yn y Neuadd wrth wneud trefniadau i gwrdd ag etholwyr. Roedd hefyd angen sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad i'r cyhoedd a threfniadau diogelwch effeithiol. Byddai **Pwyllgor y Ty** yn parhau i ystyried y mater hwn.

**Jonathan Morgan** dan Reol Sefydlog 9 ar aelodaeth Pwyllgorau Pwnc.

***3.13pm***
***Ni chafwyd dadl ar y cynnig hwn a phleidleisiwyd arno'n syth.***
**Cynnig o dan Reol Sefydlog 22.25 i gymeradwyo:**
**NDM1203** Carwyn Jones - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

*NDM1204* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
*1. Yn ystyried:*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

*2. Yn cymeradwyo:*
y gwneir y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.14pm**
**Cynnig i gymeradwyo SGR Rhif 11 ar Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches**
*NDM1207 - C*ynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 11) Cymru 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.23pm**
**Cynnig i nodi estyniad i'r contract cyfredol i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru**
*NDM1205* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag adran 94(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ailbenodi Owens, Thomas and Co yn archwilwyr cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru, drwy estyn y contract presennol am ddwy flynedd arall.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.27pm**
**Dadl ar yr ymgynghoriad ar ddulliau mwy hyblyg o ddysgu ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed**
*NDM1206* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r papur ymgynghori *"Y Wlad sy’n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19*", a gyhoeddwyd ar y fewnrwyd ar 29 Hydref 2002;

2. Yn cymeradwyo’r egwyddorion a’r cynigion cyffredinol a nodwyd yn y papur ymgynghori; ac

3. Yn cytuno y dylai’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes drefnu’r gwaith y bydd angen ei wneud er mwyn gallu gweithredu ar ganlyniadau’r ymgynghoriad o 1 Ebrill 2003 ymlaen.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 1, dileu "croesawu" a rhoi yn ei le "nodi"

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu "a" ar ddiwedd pwynt 2 a rhoi *"ond yn mynegi pryder y gallai'r cwricwlwm ehangach a mwy hyblyg fethu ag ateb anghenion dysgwyr y cafodd eu profiadau addysgol blaenorol eu llywio gan y cwricwlwm cenedlaethol presennol sy'n llym ac yn rhy gaeth".*

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3 *", ac yn cyfarwyddo'r Gweinidog i adrodd i'r Pwyllgor ynghylch y ffordd y mae'r fenter hon yn cydlynu polisïau ar gyfer grwpiau oedran iau yn ein hysgolion, ac yn gyson â'r polisïau hynny."*

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig;
Yn cydnabod y bydd goblygiadau o ran staffio ac adnoddau yn sgil diwygio’r cwricwlwm, a bod rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cyflwyno yn raddol.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig;
Yn cydnabod bod rhaid i unrhyw newidiadau newydd i’r cwricwlwm beidio â bod ar draul rhagoriaeth academaidd.

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig;
Yn galw ar y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i chwarae rhan gyflawn yn y gwaith o graffu ar unrhyw is-ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o’r newidiadau.

Mae’r papur ymgynghori "*Y Wlad sy’n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19*" i’w weld ar y Rhyngrwyd yn http://www.cymru.gov.uk/subieducationtraining/content/Consultation/learning/learning-country-w.htm

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 12; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 9; Ymatal 12; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 9; Ymatal 15; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**Y cynnig**
O Blaid 29; Ymatal 21; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.26pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
*NDM1208* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi gyda phryder yr anawsterau ariannol a wynebir gan yr Awdurdodau Iechyd ac yn gweld hyn fel tystiolaeth bellach o brinder adnoddau a diffyg cynllunio cynhwysfawr;

2. Yn mynnu bod ailstrwythuro arfaethedig Llywodraeth Cymru yn amherthnasol i ddatrys y broblem sylfaenol hon, ac yn wir y bydd yn debyg o'i gwaethygu;

3. Yn galw am baratoi cynllun cenedlaethol i gynyddu capasiti o ran staff meddygol, gwelyau a chyfleusterau eraill, wedi ei gefnogi gan ddyraniad ariannol teg i Gymru yn seiliedig ar angen.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le;
1. Yn nodi nad yw'r twf sylweddol mewn gwariant ar iechyd ers 1999 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y driniaeth a roddir i gleifion.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le;
3. Yn credu y dylid sicrhau mai cyflogi rhagor o feddygon, nyrsys a therapyddion yw'r flaenoriaeth gyntaf i GIG Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig**
O Blaid 15; Ymatal 0;Yn erbyn 40; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.34pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 13 Tachwedd 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 8 Tachwedd 2002**

Adeilad Newydd y Cynulliad Cenedlaethol: Adroddiad Diweddaru - LD1667

**Dogfennau a osodwyd ar 7 Tachwedd 2002**

Comisiynydd Plant Cymru - Adroddiad a Chyfrifon 2001-2002 - LD1666

Meat and Livestock Commission Annual Report and Accounts 2001-2002 - LD1665. Dim Copi Cymraeg neu electronig ar gael.